07/06/2019

Llythyr i bob canolfan

Annwyl gydweithiwr

O ohebiaeth flaenorol, byddwch yn gyfarwydd â'r gwaith ar raddfa fawr sy'n mynd rhagddo i ddiwygio cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Mae'r holl gymwysterau y bwriedir eu haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2019 bellach wedi cael eu cymeradwyo a byddant ar gael i'w haddysgu o fis Medi.

Sef:

CBAC TGAU Lefel 1/Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Dyfarniad Sengl)

CBAC TGAU Lefel 1/Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant (Dyfarniad Dwbl)

City & Guilds Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

CBAC Lefel 2 Gofal Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

CBAC Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-Destunau

City & Guilds Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

City & Guilds Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer

City & Guilds Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

City & Guilds Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)

City & Guilds Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)

CBAC Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Mae'r cymwysterau hyn wedi'u cynllunio i fod yn gyfredol ag arfer, polisi a deddfwriaeth bresennol yng Nghymru ac i fynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn ein hadolygiad sector 2016. Mae'r cymwysterau newydd yn gymwysterau blaenoriaethol cyfyngedig fel y gwnaethom roi gwybod i chi yn ein llythyr ym mis Ionawr 2017. Mae'r gwaith o'u datblygu gan Gonsortiwm City & Guilds a CBAC wedi cael ei gefnogi'n helaeth gan weithwyr proffesiynol yn y GIG ac yn y sector gofal cymdeithasol ac mae wedi cynnwys ymgysylltu'n sylweddol ag ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr a Llywodraeth Cymru yng Nghymru.

Tynnwyd ein sylw at y ffaith bod rhai canolfannau yn ystyried cofrestru dysgwyr yr haf hwn ar gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant lefel 2 a 3 presennol, gyda'r nod o addysgu'r rhai hynny o fis Medi 2019. Rydym yn cynghori canolfannau'n gryf i beidio â mabwysiadu'r arfer hwn, ond i gynnig y cymwysterau newydd sydd wedi cael eu datblygu'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.[1] Dylai Canolfannau edrych ar QiW er mwyn sicrhau bod y cymwysterau maent yn bwriadu eu cynnig i ddysgwyr cyn 19 oed, neu fel rhan o fframweithiau prentisiaeth, ar gael ac yn gymwys i gael cyllid cyhoeddus.

I fod yn glir, **ni** fyddwn yn ymestyn y broses o ddynodi cymwysterau presennol y tybir eu bod yn cwmpasu cynnwys pwnc tebyg i'r cymwysterau newydd, y tu hwnt i 31 Awst 2019.

Os ydych eisoes yn cynnig neu'n bwriadu cynnig cymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol neu ofal plant i ddysgwyr o fis Medi ymlaen, yna bydd angen i chi fod yn ganolfan gymeradwy ar gyfer y cymwysterau newydd gyda'r Consortiwm (hyd yn oed os ydych wedi cofrestru gydag un o'r cyrff dyfarnu, neu'r ddau yn barod). Os nad ydych wedi gwneud cais am y fath gymeradwyaeth eisoes, rydym yn eich annog i ddechrau'r broses hon cyn gynted â phosibl. Gellir dod o hyd i wybodaeth am wneud cais i fod yn ganolfan gymeradwy yn https://www.dysguiechydagofal.cymru/canolfannau-darparwyr-hyfforddiant/

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am gynnwys y llythyr hwn, cysylltwch â development@qualificationswales.org

Yn gywir

Philip Blaker

Prif Swyddog Gweithredol

[1]Ar wahân i'r cymwysterau lefel 3 presennol sy'n seiliedig ar wybodaeth a gaiff eu disodli ym mis Medi 2020.